

CRYNODEB CYFARFOD
Cyngor Cymuned Llanycil
Cyfarfod Nos Fawrth, Hydref 13eg 2026 am 8.00 o'r gloch yn
Neuadd Maesywaen.

Presennol: Rhys Jones (is-gadeirydd), Arwel Davies, Huw Charles a Huw Edwards, Geraint Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Ymddiheuriadau: Rhys Richards, Euros Puw a Gwynfryn Williams.

Cydymdeimlwyd a theuluoedd Huw Antur Edwards, Llanuwchllyn a Robin Evans, Tyddyn Du yn dilyn eu profedigaethau diweddar.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Medi 8fed 2026) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

b) Gwynedd Ni – Cronfa Cefnogi Cyngorau Cymuned a Thref – **adroddodd y clerc fod lleni'r llwyfan wedi cael ei archebu a fod y contractwr wedi cychwyn ar y gwaith ym mynwent Thal y Bont.**

iv) Gohebiaeth

a) Amrywiol.

i) Triathlon Y Bala.

ii) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - Canllaw i Arolwg 2030 o etholaethau'r Senedd.

b) Un Llais Cymru.

i) Rheolau Sefydlog Enghreifftiol 2026 – **cytunwyd i'w mabwysiadu.**

ii) Gwybodaeth allweddol am yr adolygiadau ffiniau cymunedol

iii) Weminar gwybodaeth ar sut i helpu cymunedau i ffynnu drwy weithgaredd corfforol.

v) Ceisiadau Cynllunio.

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau i'w trafod.

vi) Materion Ariannol

a) Archwiliad Allanol 2025-26.

Derbyniwyd yr Adroddiad yn nôl gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir a bod dim materion yn achosi pryder iddynt. Er hynny roedd argymhelliad ynglŷn â'r wybodaeth a oedd y Cyngor yn ei gyhoeddi ar y wefan (Adran 55 o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. Deddf 2013 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021). Nid oedd yr archwilwyr wedi nodi yn union beth oedd y cyngor angen ei gywiro ac roedd y clerc wedi cysylltu'n nôl yn gofyn am ragor o wybodaeth. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y manau perthnasol.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau Gorff – Medi).

Cymeradwywyd.

c) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - Cyhoeddiad o'r Adroddiad Blyneddol Drafft ar Gydabyddiaeth Ariannol 2026-27.

ch) Trefniadau bancio.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ychwanegu enw Rhys Richards i awdurdodi taliadau arlein ac i newid y rheol awdurdodi taliadau siec i unrhyw 2 yn lle'r trefniant presennol o'r clerc ac unrhyw ddau arall. Gofynnwyd i'r clerc ddiweddarau'r rheoliadau ariannol i adlewyrchu hyn.

d) Taliadau.

Cytunwyd i dalu:-

i) Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi)

ii) TWE

iii) Camstage – adroddodd y clerc ei bod wedi talu'r blaendal am y lleni (awdurdodwyd y taliad yn ein cyfarfod ym mis Gorffennaf).

vii) Materion lleol.

Ni chyflwynwyd unrhyw faterion.

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH
TACHWEDD 10FED YN NEUADD MAESYWAEN.**